# Morwellt Achub Cefnfor yng Ngogledd Cymru

## Cwestiynau Cyffredin

### 1. Sut wnaethoch chi ddewis y safleoedd hyn?

Mae'r 7 safle ar draws Gogledd Cymru sydd wedi eu cynnwys yn ein trwydded forol derfynol (rhif trwydded Cyfoeth Naturiol Cymru DEML2248) wedi'u dewis o ganlyniad i fewnbwn gan randdeiliaid lleol ac ystyriaethau biolegol. Mae'r rhain yn cynnwys adborth uniongyrchol gan randdeiliaid, gwybodaeth ecolegol a ddarparwyd gan aelodau'r gymuned leol, trafodaethau gydag Uned Forwrol Cyngor Gwynedd, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru ac Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd. Yn ogystal â'r adborth hwn, rydym hefyd wedi defnyddio gwybodaeth o'n harolygon gwyddonol o amodau ecolegol y safleoedd a ddewiswyd, modelau cyfrifiadurol gwyddonol sy'n rhagweld lle gallai morwellt dyfu'n ddamcaniaethol, a chanlyniadau ein harbrofion plannu morwellt yn gynnar yn 2022. Mae'r rhesymau penodol dros ddewis y safleoedd hyn yn cael eu trafod mewn manylder isod.

<u>Pen-Ychain 1</u>: Dangosodd ein model cyfrifiadurol i ddechrau y byddai'r ardal hon yn addas iawn ar gyfer morwellt. Fe wnaethon ni brofi hyn gydag arbrawf plannu morwellt yn 2022 mewn safle cyfagos a chanfod bod yr amodau ecolegol yn wir yn ymddangos yn addas i forwellt dyfu. Ar ben hynny, gwelwyd darnau bach o forwellt yn yr ardal hon yn flaenorol. Yn ogystal, roedd cyrchfan dwristiaeth fawr gyfagos yn gefnogol i ni weithio yn y lleoliad hwn.

<u>Pen-Ychain 2</u>: Dangosodd ein model cyfrifiadurol i ddechrau y byddai'r ardal hon yn addas iawn ar gyfer morwellt a rhannodd arbenigwyr amgylcheddol lleol eu gwybodaeth ecolegol gyda ni ac awgrymu y gallai hyn fod yn dda ar gyfer adfer morwellt yn seiliedig ar eu degawdau o brofiad yn y maes hwn.

<u>Pwllheli</u>: Roedd cysgod yr arfordir, ynghyd ag asesiadau safle cychwynnol yn 2021 a rhagfynegiadau o fodelau cyfrifiadurol yn dangos y byddai hwn yn lleoliad addas i forwellt dyfu. Mae clytiau bach o forwellt hefyd wedi'u cofnodi'n flaenorol gan ddeifwyr ar y safle. Ar ôl cyflwyno'r ardal arfaethedig i Gyfoeth Naturiol Cymru, fe'n hysbyswyd gan Swyddogion Morwrol Cyngor Gwynedd fod cyfran fechan o'r ardal yn gorgyffwrdd ag Awdurdodaeth Harbwr Pwllheli. Felly, ar ôl ymgysylltu ag Uned Forwrol Cyngor Gwynedd, fe wnaethom addasu'r ardal arfaethedig i sicrhau nad oes gorgyffwrdd ag Awdurdodaeth yr Harbwr.

<u>Y Gamlas</u>: Mae morffoleg arfordirol Y Gamlas yn darparu amodau cysgodol iawn, gan gynyddu'r siawns y gallai morwellt dyfu. Mae gwybodaeth leol yn awgrymu bod morwellt yn bresennol mewn ardaloedd cyfagos o'r blaen. Ychydig gannoedd o fetrau oddi ar y lan, mae banc cerrig mân naturiol sy'n darparu cysgod rhag stormydd ar gyfer glannau'r Gamlas, a dangosodd asesiadau safle yn 2022 y byddai glannau'r Gamlas yn addas iawn ar gyfer adfer morwellt. Addaswyd yr ardal a ddewiswyd gennym ymhellach gan wybodaeth ecolegol leol a ddarparwyd gan arbenigwr amgylcheddol lleol, a gwnaethom yn siŵr bod ein hardal arfaethedig yn eithrio cynefinoedd morol gwarchodedig.

<u>Abersoch</u>: Dangosodd asesiadau safle yn 2021 a'n modelau cyfrifiadurol y byddai amodau ecolegol yn addas i forwellt dyfu ac mae rhywfaint o forwellt dal i fod yn bresennol yn Abersoch. Bu arbrawf plannu morwellt cychwynnol yn llwyddiannus, gan ddangos y gall morwellt dyfu yma. Yn dilyn ymgynghoriadau lleol, addaswyd yr ardal a gynhwyswyd gennym yn ein trwydded forol i atal unrhyw orgyffwrdd â pharthau angori a marcwyr sianel a chyflymder. Bydd pob penderfyniad am y safle yn y dyfodol yn cael ei wneud mewn trafodaeth gyda Swyddogion Morwrol Cyngor Gwynedd i sicrhau nad oes gorgyffwrdd yn digwydd.

<u>Traeth yr Ora (Moelfre)</u>: yn debyg i Abersoch, roedd ein hasesiadau safle yn 2021 a modelau cyfrifiadurol yn awgrymu y gallai morwellt dyfu yn yr ardal hon. Ategwyd hyn gan nifer o arsylwadau

cymunedol lleol o forwellt islanwol yn tyfu yn yr ardal. Wrth lunio ein hardal o ddiddordeb, fe wnaethom sicrhau nad ydym yn gorgyffwrdd â chynefinoedd morol gwarchodedig, na Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

## 2. Pryd a ble fyddwch chi'n plannu morwellt y gwanwyn hwn?

Bydd ein gwaith o blannu cyfanswm o 10 hectar o forwellt yng Ngogledd Cymru yn cychwyn gyda lleiniau bach, rhwng 19 a 24 Chwefror. Byddem yn plannu morwellt yn ystod y llanw isel y prynhawn ym Mhen-Ychain 1 ac yn Y Gamlas. Yn seiliedig ar ein hasesiadau safle ychwanegol yn ystod 21-26 Ionawr, efallai wnawn ni ychwanegu trydydd safle ar gyfer gweithgareddau plannu yn ystod 19 a 24 Chwefror.

## 3. Pam nad oes unrhyw blannu wedi'i amserlennu yn Ynys Môn ar hyn o bryd?

Yn ystod 2023, byddem yn canolbwyntio ein hymdrechion ar Ben Llŷn, sy'n gwneud logisteg ein gweithgareddau plannu yn haws. Yn 2024, byddem yn dechrau plannu morwellt yn Ynys Môn, ar Draeth yr Ora; yn ogystal â pharhau â'n plannu ar safleoedd Pen Llŷn. Bydd y gwersi y byddem yn eu dysgu o'n plannu morwellt ym mis Chwefror yn llywio ein gweithgareddau yn y dyfodol, ac felly ein nod yw dechrau plannu morwellt ar Draeth yr Ora gyda mwy o wybodaeth nag sydd gennym ar hyn o bryd.

## 4. Ai'r safleoedd lle byddwch yn plannu ym mis Chwefror 2023 yw'r unig safleoedd lle byddwch yn plannu morwellt?

Bydd y safleoedd lle byddem yn plannu ym mis Chwefror yn nodi dechrau ein gweithgareddau plannu yng Ngogledd Cymru. Yn dibynnu ar y canlyniadau, gallwn (i) gynyddu ein hymdrechion plannu ar y safleoedd hyn yn 2024 a blynyddoedd i ddod, (ii) ceisio adfer morwellt mewn safleoedd eraill a ganiateir o dan ein trwydded forol, neu (iii) parhau â'n hymdrechion plannu ar y safleoedd hyn a chynnwys safleoedd eraill ein trwydded forol yn ein gweithgareddau plannu. Wrth adfer ecosystemau morwellt, mae'n hanfodol dysgu o'ch gweithgareddau a'ch profiadau adfer, ac addasu a gwneud y gorau o'r strategaeth adfer yn unol â hynny er mwyn adfer y morwellt yn llwyddiannus.

## 5. Pam fod cyfanswm y safleoedd sydd wedi'u cynnwys yn eich trwydded forol yn fwy na 10 hectar, os ydych am adfer 10 hectar o forwellt?

Mae hyn yn rhan bwysig o'n dull o adfer: mae'r safleoedd a gynhwyswyd gennym yn y drwydded forol yn cael eu galw yn *ardaloedd chwilio morwellt*. Mae'r ardal yn fwy na 10 hectar i gyd, mae'r dull hwn yn rhoi hyblygrwydd i ni ddod o hyd i leoliadau lle mae gennym (i) gefnogaeth cymunedau lleol i adfer morwellt a (ii) amodau ecolegol sy'n addas i forwellt dyfu. Yn gyfan gwbl, byddwn yn plannu 10 hectar o forwellt wedi'i ddosbarthu ar draws yr ardaloedd chwilio morwellt hyn. Yn dibynnu ar amodau ecolegol a chefnogaeth cymunedau lleol, gall hyn olygu ein bod yn plannu mewn un, ychydig, neu ym mhob safle. Mae ein harfordiroedd a'n moroedd yn llawer llai adnabyddus na'r tir, sy'n gofyn inni fod yn hyblyg wrth ddod o hyd i'r lleoliadau cywir ar gyfer morwellt.

## 6. Beth yw'r camau nesaf ar gyfer y prosiect?

Ar ôl asesu'r safleoedd yn ystod 21-26 Ionawr, a phlannu morwellt yn ystod 19-24 Chwefror, byddem yn monitro'r morwellt yn y misoedd dilynol i weld a yw'n egino ac yn sefydlu. Ym mis Awst 2023, byddwn ym Mhorthdinllaen i gasglu hadau morwellt y byddem yn eu plannu yng ngwanwyn 2024. Rydym hefyd yn gobeithio yn ystod 2023 y byddwn yn plannu rhai planhigion aeddfed, gan ddefnyddio naill ai planhigion a gasglwyd o ddolydd iach gerllaw neu blanhigion a dyfir yn ein meithrinfa yn sir Gaerfyrddin.